# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Picton Court**

**200 West Road**
**Porthcawl**
**CF36 3RT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Picton Court

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 76 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28.7.2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth da lle darperir ar gyfer eu hanghenion gydag urddas a pharch. Mae'r staff gofal a'r nyrsys yn gyfeillgar ac yn rhyngweithio â'r bobl yn dawel a hamddenol. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae cynlluniau personol y bobl yn adlewyrchu'r bobl yn dda ac yn rhoi darlun clir o'r person a'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae rhaglen o weithgareddau yn y gwasanaeth y mae'r bobl yn ei mwynhau. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau gartref ac yn y gymuned. Mae digon o staff ar gael ac mae ganddynt gymysgedd o sgiliau i ddarparu cymorth digonol i'r bobl. Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel a chânt hyfforddiant i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth, er mwyn cefnogi'r bobl yn briodol. Cânt eu cefnogi yn eu rolau a chânt y lefel ofynnol o gymorth ffurfiol. Mae mesurau llywodraethu a sicrhau ansawdd addas ar waith, sy'n helpu i redeg y gwasanaeth yn hwylus. Mae'r amgylchedd, ei gyfleusterau a'i gyfarpar mewn cyflwr da. Mae'r safonau hylendid a glendid yn y cartref yn dda.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Picton Court. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn dosturiol ac yn barchus ac yn mwynhau gweithio yn y cartref. Mae gan y gwasanaeth systemau i sicrhau bod y gofal a'r cymorth o safon dda. Mae'r bobl yn cael budd o gynlluniau personol unigol a chyfredol. Mae'r bobl yn gallu dewis cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Maent hefyd yn fodlon â'r prydau bwyd sy'n cael eu cynnig yn y cartref. Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel a cheir tystiolaeth y gall y gweithwyr gofal ddiwallu anghenion corfforol ac emosiynol y bobl.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Gwelsom dystiolaeth o atgyfeiriadau amserol yn cael eu gwneud a chydgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol megis deietegyddion, meddygon teulu a nyrsys cymunedol. Mae'r wybodaeth a gesglir a'r cyngor a roddir gan y proffesiynau hyn yn cael eu cynnwys yn y ffeiliau gofal ac yn cael eu rhoi ar waith gan y nyrsys a'r staff gofal. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi fel y'i rhagnodir. Mae arferion meddyginiaeth yn cael eu cyflawni yn unol â'r polisi meddyginiaeth yn y gwasanaeth.

Mae systemau sy'n helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r hyfforddiant ar ddiogelu ar gael ac mae'r staff yn ymwybodol o'r broses ar gyfer mynegi pryderon. Mae asesiadau risg manwl yn darparu gwybodaeth am wendidau'r bobl. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant perthnasol mewn meysydd megis diogelu a meddyginiaeth. Mae'r gwiriadau cyn recriwtio yn gadarn ac mae sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cefnogi datblygiad parhaus. Mae'r gwasanaeth yn bodloni gofynion rheoliadol am gyflwyno hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae amgylchedd glân a chyfforddus yn helpu i gefnogi llesiant y bobl. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd fel y mynnont sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi'u haddurno a'u dodrefnu mewn ffordd ddymunol, gan ddarparu man i'r bobl ymlacio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae cyfarpar arbenigol ar gael i'r bobl sydd ei angen ac mae tîm cynnal a chadw'r cartref yn sicrhau bod yr amgylchedd, ei gyfleusterau a'r cyfarpar yn ddiogel i'w defnyddio.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn hapus gyda safon y gofal a'r cymorth a ddarperir. Cawsom adborth canmoliaethus am y nyrsys a'r staff gofal. Dywedodd un unigolyn wrthym, *"It's a wonderful home, wonderful staff".* Dywedodd perthynas person sy'n byw yn y cartref wrthym, "*It's excellent here".* Gwelsom ryngweithio cynnes a chyfeillgar rhwng y staff gofal a'r unigolion. Mae'r gwasanaeth yn darparu parhad gofal da, oherwydd ei allu i gadw staff. Gwelsom fod y staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda a'u bod yn gyfarwydd â'u hanghenion a'u harferion dyddiol.

Mae'r bobl yn cael budd o ofal a chymorth o safon dda. Mae asesiadau cyn derbyn yn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion y bobl cyn iddynt symud i mewn. Mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynllunio gofal yn sicrhau bod y bobl wrth wraidd y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Caiff cynlluniau personol eu datblygu ar y cyd rhwng y bobl neu eu cynrychiolwyr. Maent yn tynnu sylw at ganlyniadau'r bobl ac yn darparu cyfarwyddiadau clir ynghylch darparu gofal. Mae asesiadau risg a chynlluniau rheoli cadarn yn nodi gwendidau'r bobl ac yn rhoi arweiniad i'r gweithwyr gofal ar ymyriadau a fydd yn cadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r cofnodion dyddiol yn gyfredol ac yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd cyffredinol pobl pan fo angen. Ceir trosglwyddo trylwyr rhwng shifftiau. Mae bwydlen dreigl bob pedair wythnos ar waith, sy'n annog y bobl i fwyta deiet amrywiol ac iachus. Dywedodd un o'r nyrsys cymunedol a oedd yn ymweld wrthym nad oedd ganddi unrhyw bryderon am y gofal a roddir yn Picton Court.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt pan fyddant am eu gwneud. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael sy'n ystyrlon i'r bobl. Roedd tystiolaeth ffotograffig a dogfennaeth ysgrifenedig yn ogystal ag arsylwadau ar bobl yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys teithiau yn y bws mini, amser un-i-un a gweithgareddau grŵp. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Dywedodd un perthynas wrthym, *"There's more than enough going on"* a dywedodd un unigolyn, *"I'm very happy with all the activities".*

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Caiff risgiau penodol i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi mewn cynlluniau gofal ac asesiadau risg a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae polisïau manwl ar waith i arwain staff ym mhob maes, gan gynnwys diogelu a chwythu'r chwiban. Mae hyfforddiant diogelu'r staff yn gyfredol. Caiff digwyddiadau, damweiniau a phryderon diogelu posibl eu harchwilio a'u cyfeirio at y sefydliadau allanol perthnasol. Gwelsom fod Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ar gyfer y bobl hynny nad oeddent yn gallu gwneud penderfyniadau am eu llety, gofal na'u cymorth. Dywedodd perthynas wrthym "*He's as safe as they can possibly make it*".

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn gyfforddus, yn lân, ac wedi'i addurno i safon dda. Mae'r cartref ar ddau lawr gyda lifft i'r llawr uchaf ar gyfer y bobl sydd â phroblemau symudedd. Mae ardaloedd cymunedol lle gall y bobl ryngweithio â'i gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Gwnaethom arsylwi ar y bobl yn yr ardaloedd cymunedol, roeddent yn ymddangos yn gyfforddus a chartrefol yno sy'n awgrymu eu bod yn hapus gyda'r amgylchedd. Mae digon o gyfleusterau toiled ac ymolchi ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac mae cyfarpar arbenigol ar gael i'r rheini sydd ei angen megis teclynnau codi. Mae ystafelloedd y bobl o faint da ac wedi'u personoli â'u heiddo. Mae staff domestig a staff golchi dillad yn y gwasanaeth yn ddyddiol er mwyn sicrhau y cedwir safonau hylendid a glendid da.

Mae rhaglen dreigl o wiriadau cynnal a chadw yn sicrhau bod yr amgylchedd, ei gyfleusterau a'i gyfarpar yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod tystysgrif diogelwch gyfredol ar gyfer cyfleustodau a nodweddion diogelwch tân. Mae gan bob un sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae'r ddogfen yn rhoi gwybodaeth ymarferol i'r staff gofal am y ffyrdd gorau o gefnogi'r bobl i wagio'r adeilad mewn argyfwng. Caiff archwiliadau iechyd a diogelwch misol eu cwblhau er mwyn gallu nodi a rhoi gwybod am unrhyw beryglon posibl i'w hatgyweirio neu i osod rhywbeth yn eu lle.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn hyrwyddo datblygiad a gwelliant parhaus y cartref.  Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr gydberthynas dda, ac mae'r ddau yn goruchwylio'r digwyddiadau yn y cartref o ddydd i ddydd yn dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ei ymweliadau monitro chwarterol, a'i adroddiadau o ansawdd y gofal ddwywaith y flwyddyn, gan nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda yn y cartref a pha gamau sydd angen eu cymryd i wella'r pethau nad ydynt yn gweithio cystal.

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn ategu arferion diogel. Gwelsom sawl polisi a gweithdrefn gan gynnwys Derbyniadau, Diogelu, Meddyginiaeth a Chwythu'r Chwiban. Gwelsom fod y polisïau'n fanwl ac yn cynnwys canllawiau statudol a chanllawiau arferion gorau cyfredol. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu diweddaru pan fo angen. Roedd y wybodaeth ysgrifenedig arall a welsom yn cynnwys y datganiad o ddiben sy'n disgrifio'r gwasanaeth yn gywir.

Mae'r staff gofal yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae cofnodion yn ymwneud â goruchwyliaeth yn dangos bod staff yn cael y lefelau gofynnol o gymorth ffurfiol. Mae hyn yn helpu eu datblygiad proffesiynol ac yn rhoi cyfle iddynt drafod pethau fel llwyth gwaith neu bryderon a allai fod ganddynt. Mae'r staff gofal y siaradwyd â nhw yn cadarnhau bod y tîm rheoli bob amser yn hygyrch ac yn darparu lefel dda o gymorth. Dywedodd y nyrsys a'r gweithwyr gofal wrthym "*The manager is lovely*", "*It's a nice place to work*" ac "*I enjoy coming to work*".

Mae adran gwasanaethau adnoddau dynol y gwasanaeth yn cadarnhau bod y brosesau recriwtio staff yn bodloni'r holl ofynion rheoliadol. Caiff aelodau newydd o'r staff sesiynau sefydlu yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau, gan gynnwys hyfforddiant diogelu.  Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a bod gwaith tîm yn y cartref yn dda. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r rheolwyr, sy'n hawdd mynd atynt. Mae pinnau'r holl nyrsys yn ddilys sy'n dangos eu bod yn addas ar gyfer ymarfer, a'i ddilysu ar wefan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae gan bob aelod o'r staff wiriad dilys gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS).

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Mae angen diweddaru'r Cynlluniau Personol i adlewyrchu anghenion gofal a chymorth y bobl yn gywir ac i liniaru risg | Cyflawnwyd |
| 58 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â rheoliad 58(3) oherwydd bod y gweithwyr gofal a'r nyrsys yn rhoi meddyginiaeth PRN i rai pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ond nid ydynt yn cofnodi'r rheswm neu'r canlyniad bob amser. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/07/2023